c1514 Forests of Wales 4pp a4:c1024 NE newsletter spring 05 19/1/09 10:33 Page 1



Fritheg Arian
Silver-washed Fritillery

Gwarchod Glöynnod Byw Cymru

# glöynnod byw a gwyfynod coedwigoedd Cymru



Gwibiwr Llwyd
Dingy Skipper

Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru
Forestry Commission in Wales

**Yn adroddiad y Comisiwn Coedwigo 'Species Action Plan for Butterflies on Forestry Commission Land 2000-2005' fe amlinellir ymrwymiad y Comisiwn Coedwigo i gadwraeth glöynnod byw Blaenoriaethol Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU (UK BAP) a glöynnod byw yn gyffredinol ar safleoedd y Comisiwn Coedwigo ar hyd a lled y DU.**

Er mwyn cyrraedd gwell dealltwriaeth o ddosbarthiad glöynnod byw Blaenoriaethol UK BAP ar dir Comisiwn Coedwigo Cymru, comisiynwyd Gwarchod Glöynnod Byw i gynnal 'Arolwg ar Löynnod Byw Blaenoriaethol' gan dargedu'r rhywogaethau hynny ar safleoedd sydd â chofnodion blaenorol. Ar rai safleoedd ymgymerwyd ag arolygon llawnach ar Lepidoptera, gan gynnwys dal gwyfynod. >>>>



Lindysyn Dolennog Llwyd
Drab Looper

Butterfly Conservation Wales

# butterflies and moths of the Forests of Wales



Argent and Sable
Arian a Du



Marsh Fritillary
Brith y Gors

Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru
Forestry Commission in Wales

**The Forestry Commission's 'Species Action Plan for Butterflies on Forestry Commission Land 2000-2005' outlined the Commission's commitment to the conservation of the UK BAP priority butterflies and butterflies in general on Forestry Commission sites throughout the UK.**

To ascertain the current distribution of UK BAP Priority Butterflies on Forestry Commission Wales forests and woodlands, Butterfly Conservation was contracted to undertake a 'Priority Butterflies Survey,' targeting those species at sites with previous records. At some sites fuller Lepidoptera surveys were undertaken including moth trapping. >>>>



Large Heath
Gweirlöyn Mawr

## Dros gyfnod o bedair blynedd (2001- 2004) fe gafodd 56 o safleoedd Comisiwn Coedwigo Cymru eu harolygu gan staff Gwarchod Glöynnod Byw, gwirfoddolwyr a chytundebwyr hefyd.

Targedodd yr arolygon ar safleoedd gyfnodau hedfan y glöynnod byw hynny â statws Blaenoriaeth gadwraethol Ganolig neu Uchel yng Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol (NAP) Gwarchod Glöynnod Byw Cymru. Gwiriwyd y safleoedd hefyd i weld a oedd rhywogaethau blaenoriaethol eraill yn bresennol, os ystyrid y cynefin yn addas ar eu cyfer. Ar rai safleoedd fe gofnodwyd gwyfynod hefyd trwy osod maglau goleuni.

- Cafwyd bod 28 o safleoedd yn hyrwyddo presenoldeb Lepidoptera â statws Blaenoriaeth gadwraethol Ganolig neu Uchel.
- Cofnodwyd 10 o rywogaethau glöynnod byw â statws blaenoriaeth gadwraethol NAP Ganolig neu Uchel ar dir Comisiwn Coedwigo Cymru. Yr oeddent yn cynnwys:
  - **Dwy rywogaeth flaenoriaethol UK BAP** sef Brith y Gors *Euphydryas aurinia* a'r Glesyn Serennog *Plebeius argus*.
  - **Pum rhywogaeth sy'n destun Pryder Cadwraeth gan UK BAP** Iâr Wen y Coed *Leptidea sinapis*, y Glesyn Bach *Cupido minimus*, y Fritheg Berlog Fach *Boloria selene*, y Gweundir Mawr *Coenonympha tullia* a'r Fritheg Arian *Argynnis paphia*.
  - **Dwy rywogaeth sy'n cael eu hargymell ar hyn o bryd ar gyfer statws blaenoriaeth UK BAP** y Gwibiwr Brith *Pyrgus malvae* a'r Gwibiwr Llwyd *Erynnis tages*.


Gliradain Gymreig
Welsh Clearwing

- **Cofnodwyd 22 o wyfynod â statws blaenoriaeth gadwraethol NAP Uchel neu Ganolig, gan gynnwys pum Rhywogaeth â Blaenoriaeth UK BAP:** y Gliradain Gymreig *Synanthedon scoliaeformis* (RDB 3), yr Arian a Du *Rheumaptera hastata*, y Llinell Ddwbl *Mythimna turca*, y Lindysyn Dolennog Llwyd *Minoa murinata* a'r Gwyfyn Brith Tonnog *Hydrelia sylvata*.
- Adroddwyd am golled rhywogaethau glöynnod byw blaenoriaethol, a chynefin addas iddynt, ar gyfer llawer o safleoedd. Adroddodd arolygwyr a oedd yn gyfarwydd â safleoedd penodol hefyd am ddirywiad yn ansawdd ac argaeledd cyffredinol cynefinoedd y glöynnod byw. Mae angen newid ar fyrder yn arferion rheoli cynefinoedd ar y rhan fwyaf o safleoedd.
- Yn ystod cyfnod yr arolwg, fe ddarparwyd rhagnodiadau rheolaeth bob blwyddyn â'r nod o wella, estyn a chysylltu ardaloedd cynefin addas i helpu i adfer a chryfhau poblogaethau o Lepidoptera ar y safleoedd hyn a safleoedd eraill Comisiwn Coedwigo Cymru. Mae mapiau gyda sylwadau wedi cael eu paratoi bellach y bwriedir iddynt hysbysu Cynlluniau Dylunio Coedwig.
- Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno canlyniadau'r holl waith arolygu a wnaed gan Gwarchod Glöynnod Byw ar dir Comisiwn Coedwigo Cymru yn ystod y cyfnod 2001-2004 ac yn cyflwyno argymhellion ynghylch gwaith yn y dyfodol ar bob safle. Mae'r rhain yn cynnwys awgrymiadau ynglyn â gwylio pellach, monitro, rheoli'r safle, mesurau cadwraeth ar draws ydirwedd gyfan, ac ymchwilio.
- Yr argymhelliad cyffredinol pennaf yw y dylid canlyn arni â gweithredu rhagnodiadau ynghylch rheoli safleoedd er lles y rhywogaethau allweddol. Dylid gweithredu system briodol hefyd ar gyfer monitro cyflwr cynefinoedd ar y safleoedd hynny lle y mae dulliau rheoli'n cael eu newid.
- Dichon y bydd yr arolwg y bwriedir ei gynnal ar UK BAP yn arwain at newidiadau yn statws cadwraeth Flaenoriaethol y Llinell Ddwbl *Mythimna turca* a'r Gwyfyn Brith Tonnog *Hydrelia sylvata*. Y ddau wyfyn hyn yw'r prif rywogaethau o bwysigrwydd cadwraethol a gofnodwyd ar chwech o safleoedd Comisiwn Coedwigo Cymru, ac mae De Cymru'n ardal allweddol yn eu dosbarthiad yn y DU. Dylai rheoli cynefin y ddwy rywogaeth hyn aros yn flaenoriaeth ar yr holl safleoedd y gwyddys amdanynt.

Gwarchod Glöynnod Byw Cymru
Achub glöynnod a gwyfynod gwyllt a'u cynefinoedd

Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru
Forestry Commission in Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Gwarchod Glöynnod Byw Cymru**
10 Rhes Calvert Abertawe SA1 6AR Ffôn: 0870 770 6153 E-bost: wales@butterfly-conservation.org
**Prif Swyddfa Gwarchod Glöynnod Byw**
Manor Yard East Lulworth Dorset BH20 5QP Ffôn: 0870 7744309 E-bost: info@butterfly-conservation.org
**www.butterfly-conservation.org**
Lluniau gan Paul Pugh
Mae Gwarchod Glöynnod Byw yn elusen gofrestredig ac yn gwmni di-elw wedi'i gyfyngu gan warant.
Manor Yard, East Lulworth, Wareham, Dorset, BH20 5QP. Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 2206468. Elusen Gofrestredig Rhif 254937.
Designed and produced by **cellcreative** 01942 681648

## Over a four-year period (2001- 2004), 56 Forestry Commission Wales forests and woodlands were surveyed by Butterfly Conservation staff, volunteers and contractors.

Site surveys targeted the flight periods of butterflies accorded Medium and High Priority in Butterfly Conservation Wales' National Action Plan (NAP). Sites were also checked for other priority species if the habitat appeared suitable. At some sites moths were also recorded by light trapping.

- 28 sites were found to support Lepidoptera with a Medium or High NAP conservation priority.
- 10 butterfly species of Medium or High NAP conservation priority status were recorded on Forestry Commission Wales forests and woodlands. These included:
  - **Two UK BAP priority species**
    **Marsh Fritillary** *Euphydryas aurinia* and **Silver-studded Blue** *Plebeius argus*.
  - **Five UK BAP Species of Conservation Concern**
    **Wood White** *Leptidea sinapis*, **Small Blue** *Cupido minimus*, **Small Pearl-bordered Fritillary** *Boloria selene*, **Large Heath** *Coenonympha tullia* and **Silver-washed Fritillary** *Argynnis paphia*.
  - **Two species currently being proposed for UK BAP priority status**
    **Grizzled Skipper** *Pyrgus malvae* and **Dingy Skipper** *Erynnis tages*.


Silver-studded Blue
Glesyn Serennog

- **22 High or Medium NAP conservation priority moths were recorded, including five UK BAP Priority Species:** Welsh Clearwing *Synanthedon scoliaeformis* (RDB 3), Argent and Sable *Rheumaptera hastata*, Double Line *Mythimna turca*, Drab Looper *Minoa murinata* and Waved Carpet *Hydrelia sylvata*.
- The loss of priority butterfly species, and suitable habitat for them, was reported for many sites. Surveyors familiar with particular sites also reported declines in overall butterfly habitat quality and availability. Changes in habitat management practices are urgently required for many sites.
- During the survey period, management prescriptions were provided annually with the aim of improving, extending and linking areas of suitable habitat to help restore and enhance Lepidoptera populations in these, and other Forestry Commission Wales forersts and woodlands. Annotated maps have now been produced to inform Forest Design Plans.
- The report produced combines all the results of the survey work in Forestry Commission Wales forests and woodlands carried out by Butterfly Conservation during the 2001-2004 period and presents recommendations for future work at each site. These include suggestions for further surveillance, monitoring, site management, landscape-scale conservation measures and research.
- The overall and most pressing recommendation is to progress implementation of habitat management prescriptions for the key species. On the sites undergoing changes in management an appropriate habitat condition monitoring system should also be implemented.
- The forthcoming review of the UK BAP may result in changes to the Priority conservation status of Double Line *Mythimna turca* and Waved Carpet *Hydrelia sylvata*. Both these moths are the main species of conservation importance recorded in six of the Forestry Commission Wales sites, and South Wales is a key area of their UK distributions. Habitat management for these species should remain a priority at known sites.

Butterfly Conservation Wales
Saving butterflies, moths and their habitats

Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru
Forestry Commission in Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Butterfly Conservation Wales**
10 Calvert Terrace Swansea SA1 6AR Tel: 0870 770 6153 Email: wales@butterfly-conservation.org
**Head Office**
Manor Yard East Lulworth Dorset BH20 5QP Tel: 0870 7744309 info@butterfly-conservation.org
**www.butterfly-conservation.org**
Photographs kindly provided by Paul Pugh
A registered charity and non-profit making company, limited by guarantee.
Registered Office: Manor Yard, East Lulworth, Wareham, Dorset, BH20 5QP. Registered in England No. 2206468 - Registered Charity No. 254937
Designed and produced by **cellcreative** 01942 681648